# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

Noddir gan Mark Isherwood AS

Dyddiad: 14 Mawrth 2022, 1:30pm – 2:45pm
Lleoliad: Zoom

## Presenoldeb

**Deiliaid Swyddi'r Grŵp Trawsbleidiol**

Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
Mike Hedges AS
John Griffiths AS
Helen Boggis (ar ran Vikki Howells AS)
Rhys Taylor (ar ran Jane Dodds AS)

**Rhanddeiliaid**

Adam Scorer, (NEA), Hayden Banks (NEA), Brian Hart (NEA), Jane Hutt AS (y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol), William Bell (Cyd Innovation), Kate Calladene, (EON), Jonathan Cosson (Cymru Gynnes), Leonardo Costa (Ofgem), David Cowdrey (Sefydliad Elusennol MCS), Ceri Cryer (Age Cymru), Bethan Edwards (Marie Curie), Steffan Evans, Heledd Fychan AS (Canol De Cymru), Mabon Gwynfor AS (y Senedd), Frank Hemmes (Ofgem), Sam Hughes, (Cyngor ar Bopeth), Suan John (Plaid Cymru), William Jones (Cyngor ar Bopeth), George Jones (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru), Matthew Kennedy (CIH Cymru), Francesca Kirtley-Paine (Liquid Gas UK), Simon Lannon (Prifysgol Caerdydd), Simone Lowthe-Thomas (Asiantaeth Ynni Hafren Gwy), Kiera Marshall (Plaid Cymru), Christopher McDermott (Ofgem), Jason McLellan (Swyddfa Carolyn Thomas), Ken Moon (Y Senedd), Lia Murphy, (Ofgem), Faye Patton, (Gofal a Thrwsio Cymru), Lee Phillips, (Gwasanaeth Arian a Phensiynau), David Renwick (EON), Elaine Robinson, Joanna Seymour (Cymru Gynnes), Jack Wilkinson-Dix (Ymddiriedolaeth Arbed Ynni), Nigel Winnan (West & Wales Utilities), Lucien Wise (Y Senedd)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

Altaf Hussain AS, Peredur Owen Griffiths AS, Sioned Williams AS, Ben Saltmarsh (NEA), Claire Durkin (Ymddiriedolwr NEA)

## Crynodeb o'r drafodaeth

1. **<u>Croeso a chyflwyniadau</u>**

   - **Mark Isherwood AS (Cadeirydd):** Croesawodd y rhai a oedd yn bresennol gan nodi y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar gymorth i gartrefi mewn tlodi tanwydd yng Nghymru o ystyried y cynnydd sydyn mewn biliau ynni. Mae NEA yn amcangyfrif y bydd y cynnydd o 54% yn y cap ar brisiau ynni ym mis Ebrill yn golygu y bydd 100,000 rhagor o gartrefi yng Nghymru yn wynebu tlodi tanwydd, gan ddod â'r cyfanswm i dros 280,000 o gartrefi. Bydd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn ymuno i drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng prisiau a bydd cynrychiolwyr Ofgem yn ateb cwestiynau ar y cap ar brisiau a rhwymedigaethau'r cyflenwyr.

- **Adam Scorer, Prif Weithredwr NEA (Ysgrifennydd Dros Dro yn absenoldeb Ben Saltmarsh)**: Amlinellodd y cynnydd aruthrol yn y galw am wasanaethau cyngor ar ddyledion NEA wrth i brisiau godi, ac wrth i bobl ei chael yn anodd cadw at eu cynlluniau ad-dalu dyled gyda chyflenwyr a'r ffaith nad yw cynllun ad-dalu Llywodraeth y DU yn llwyddo i ymdopi â maint a difrifoldeb yr argyfwng.

## 2. <u>Cwestiynau i Ofgem</u>

- **Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth:** Holodd Sam am gyflenwyr a oedd yn gwrthod derbyn cwsmeriaid newydd a oedd yn cael eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy am y tro cyntaf ac, o ganlyniad, nid oedd awdurdodau lleol yn gallu cynnig cymorth. Dywedodd fod angen atgoffa cyflenwyr o amodau eu trwyddedau o ran cynorthwyo cwsmeriaid. Dywedodd Frank Hemmes, Pennaeth Cydymffurfiaeth Manwerthu yn Ofgem, ei fod yn ymwybodol o'r problemau hyn a'i fod wedi atgoffa cyflenwyr yn flaenorol o'u rhwymedigaethau i dderbyn a chynorthwyo cwsmeriaid a oedd wedi'u cysylltu â'r grid nwy am y tro cyntaf, ac y bydd yn cysylltu â nhw eto mewn perthynas â hyn.
- **Mark Isherwood AS, Cadeirydd:** Holodd Mark am y posibilrwydd o adolygu'r cap ar brisiau. Ymatebodd Leonardo Costa, Pennaeth Polisi'r Cap ar Brisiau yn Ofgem, fod y cap yn cael ei osod ar sail y gost sylfaenol o gyflenwi ynni i gwsmeriaid a'i fod yn cael ei adolygu bob chwe mis ar hyn o bryd i adlewyrchu newidiadau mewn prisiau cyfanwerthu. Dywedodd ei bod yn rhy gynnar i ni wybod beth fydd y cap ym mis Hydref.
- **Adam Scorer, NEA**: Dywedodd Adam ei bod yn amlwg y bydd mecanwaith y cap ar brisiau'n newid er mwyn caniatáu i'r costau hynny y mae'r diwydiant wedi'u hysgwyddo gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr. Mae'r cap wedi dal prisiau'n ôl yn ddamweiniol dros y misoedd diwethaf, meddai ond bydd effaith hyn yn gwanhau a rhybuddiodd nad yw'r cap yn diogelu cartrefi mwyach rhag cynnydd eithafol mewn prisiau ynni. Nododd Adam fod angen gwneud rhagor i amddiffyn cartrefi incwm isel rhag y prisiau uchel ac anogodd rhanddeiliaid i fonitro profiadau defnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys cwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw, ar ôl i'r cap ar brisiau godi ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf gydag unrhyw sylwadau.
- **Frank Hemmes, Pennaeth Cydymffurfiaeth Manwerthu yn Ofgem**: Esboniodd Frank fod y cap wedi'i osod yn unol â deddfwriaeth a bod Ofgem yn croesawu hyn ac unrhyw ymgysylltiad ychwanegol. Esboniodd hefyd y broses o ddarparu cyflenwr pan fetha popeth arall (SOLR) a rôl Ofgem yn y broses o sicrhau bod unrhyw gyflenwyr a benodir yn gwasanaethu eu cwsmeriaid newydd ac yn cadw at eu rhwymedigaethau.

## 3. <u>Sylwadau Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol</u>

- Rhoddodd y Gweinidog sylwadau ar yr argyfwng presennol ac ar yr Uwchgynhadledd Costau Byw a gynhaliodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, pan glywyd gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys NEA, Sefydliad Bevan, a Chyngor ar Bopeth.
- Amlinellodd y Gweinidog y pecyn a gyflwynodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a oedd yn cynnwys mesurau estynedig i gynorthwyo pobl yn ystod yr argyfwng costau byw, gan gynnwys cynlluniau i roi ail daliad o £200 fel rhan o'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yn ddiweddarach eleni a pharhad hyblygrwydd DAF sy'n cynnwys cymorth brys i helpu i gyflenwi olew a LPG ychwanegol drwy gydol 2022/23.
- Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â thaliad y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ymlaen i fis Medi er mwyn sicrhau bod cartrefi'n cael cymorth cyn misoedd y

gaeaf a dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn hawlio'r budd-daliadau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddynt.

- Nododd y Gweinidog hefyd ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol y Rhaglen.

## 4. <u>Sesiwn holi at ateb gyda'r Gweinidog</u>

- **Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth:** Gofynnodd Sam a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio cytundebau rhannu data presennol, fel prosiect JIGSO, i helpu i sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio ar y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a budd-daliadau fel Credyd Pensiwn, o gofio bod y rhai sy'n gallu hawlio'r rhain hefyd yn gallu hawlio'r tariffau cymdeithasol a gynigir gan Dŵr Cymru. Cadarnhaodd Steve Chamberlain (Llywodraeth Cymru) fod Llywodraeth Cymru yn trafod hyn gyda'r swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru i sicrhau gwell cysondeb a bydd yn cyflwyno cynigion i'r Gweinidog eu hystyried. Awgrymodd Adam Scorer, NEA, y gellid hefyd ddefnyddio Deddf yr Economi Ddigidol i sicrhau bod data cwmnïau dŵr a data Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu yn cael eu rhannu â chwmnïau ynni i sicrhau bod rhagor yn cael cymorth a gall NEA ystyried trafod hyn â Steve.
- **Lee Phillips, MaPS**: Soniodd Lee am bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, a chynorthwyo cartrefi sydd ar y dibyn, cyn i'w sefyllfa droi'n argyfyngus. Cytunodd y Gweinidog a dywedodd fod gwaith ar y gweill i helpu i ymdrin â thlodi ac ansicrwydd bwyd.
- **David Cowdrey, MCS**: Gofynnodd David i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried ysgrifennu at y Trysorlys ynghylch cael dileu'r ardollau amgylcheddol oddi ar filiau ynni a'u cynnwys, yn hytrach, mewn trethi cyffredinol, a chael gwared ar TAW ar fesurau effeithlonrwydd ynni, fel inswleiddio. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn ddiweddar i sôn am hyn a materion eraill ac y bydd yn parhau i ymgysylltu â nhw yn y cyswllt hwn.
- **Mark Isherwood (Cadeirydd):** Holodd Mark y Gweinidog am ddatblygiad y Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer ac, yn benodol, a fyddai'n gallu rhoi manylion mwy pendant ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda'r sector iechyd i gyflawni amcanion y cynllun a sefydlu rhwydweithiau atgyfeirio rhwng gweithredwyr iechyd a phartneriaid cynghori. Gofynnodd y Gweinidog i swyddogion barhau i weithio gyda Mark a'r Grŵp Trawsbleidiol ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru weithio gydag asiantaethau iechyd yn y modd hwn.
- **Jonathan Cosson, Cymru Gynnes:** Dywedodd Jonathan fod prisiau cynyddol yn faich ychwanegol ar gwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw gan fod y cwsmeriaid hyn, yn aml, yn wynebu lefelau uchel o ddyled ynni. Dywedodd fod taliad y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yn cynyddu ar gyfer y cwsmeriaid hyn i geisio sicrhau nad dim ond clirio dyledion presennol y mae'r taliad.
- **Mike Hedges AS:** Tynnodd Mike sylw at y cysylltiadau rhwng newyn a thlodi tanwydd a nododd fod banciau bwyd yn awr yn dosbarthu talebau tanwydd yn ogystal â bwyd, a gofynnodd a fyddai'r Gweinidog yn hyrwyddo hyn.
- **Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth:** Croesawodd Sam yr ymgynghoriad ynghylch y newidiadau yn y Rhaglen Cartrefi Clyd ond roedd yn awyddus i wybod a fyddai cyllid ar gael o hyd ar gyfer cynllun presennol Nyth tan y daw i ben ym mis Ebrill 2023. Dywedodd Steve Chamberlain (Llywodraeth Cymru) fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £3 miliwn ychwanegol i'r Rhaglen Cartrefi Clyd eleni a dywedodd fod angen gwneud mwy o waith hyrwyddo ar yr angen i ddarparu gosodiadau effeithlonrwydd ynni cyn y gaeaf, gan nodi y byddai hynny'n digwydd yn rhannol drwy'r Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer.
- **Ken Moon, Cydlynydd Dyfodol Cynaliadwy Heledd Fychan AS**: Tynnodd Ken sylw hefyd at y perygl y bydd pobl sy'n byw gyda COVID hir yn wynebu tlodi tanwydd ac y bydd eu hiechyd yn dirywio wrth

iddynt fyw mewn cartref oer.  Awgrymodd Mark Isherwood MS y gallai NEA ymgysylltu â’r Grŵp Trawsbleidiol ar COVID hir.

## 5. <u>Y cyfarfod nesaf</u>

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ceisio cwrdd eto cyn toriad yr haf.  Caiff yr Aelodau wybod dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf maes o law.